

Meini prawf ariannu:

Cronfa Degwm Powys

Mae Cronfa Degwm Powys yn rhoi cymorth i grwpiau cymdeithasol, hamdden ac elusennol er enghraifft:

- atgyweirio Capeli, Eglwysi a neuaddau cymunedol/pentref o fewn y sir
- annog y celfyddydau
- gweithgareddau cymdeithasol a hamdden gan gynnwys y rhai sy'n gwella mynediad at wasanaethau
- diogelu adeiladau hanesyddol
- cefnogi mudiadau sy'n gweithio i fynd i'r afael ag anfantais yn achos pobl ar incwm isel neu'r rhai sy'n sâl neu'n anabl

Grantiau ar gael

- Gall elusennau geisio am grant rhwng £1,000 a £5,000.
- Ble mae angen eithriadol, gellir gwobrwyo grant o £10,000

Gellir dyfarnu grantiau cyfalaf i helpu sefydliadau efo costau dodrefnu a gwaith cynnal a chadw adeiladau.

Dyfarnir y grantiau cyllid i gefnogi mudiadau gynnig prosiectau a gweithgareddau o fudd i drigolion Powys.

Who can apply?

- Mudiadau di-elw (ee elusen gofrestredig, sefydliad corfforedig elusennol, clwb anghorfforedig neu gymdeithas a chwmni buddiannau cymunedol)
- Mudiadau sydd wedi'u lleoli o fewn y Sir Powys a/neu brosiectau neu weithgareddau sydd wedi'u sefydlu i wasanaethu trigolion Powys
- Eglwysi a Chapeli

Yn 2020 cyhoeddodd Sefydliad Cymunedol Cymru ganfyddiadau ymchwil a wnaed gyda mwy na 100 o grwpiau cymunedol ar draws Cymru. Amlygodd ein hadroddiad Yn Uchel ac yn Groch fod elusennau a grwpiau cymunedol yng Nghymru eisiau i arianwyr roi blaenoriaeth i arian craidd ac i bartneriaethau tymor hirach. Rydym wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn yr adroddiad hwn i'n helpu i ffurfio Cronfa Degwm Powys a dangos i grwpiau ein bod yn credu yn eu dibenion craidd a'n bod ni eisiau eu cefnogi i weithio'n fwy effeithiol yn eu cymunedau yn y tymor hirach.

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw bod grwpiau'n allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael sicrwydd fod arian ar gael yn gallu rhoi'r hyder a sicrwydd i chi i ddatblygu'ch prosiect dros y tymor hir. Mae Cronfa Degwm Powys cynnig cyfle i grwpiau ymgeisio am arian am sawl blwyddyn, hyd at dair blynedd, ond bydd hefyd yn dal ati i gynnig arian ar gyfer prosiectau un flwyddyn neu eitemau cyfalaf bychain.

I gael eich ystyried ar gyfer grant tair blynedd, dylech gwblhau'r adran ychwanegol ar y ffurflen gais i ddangos sut rydych yn bwriadu datblygu'ch prosiect dros y cyfnod ariannu yr ymgeisir amdano.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n gwell gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol. Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.

Sut i ymgeisio?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan.

Noder:

- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau.
- Nid yw grantiau ar gael fel arfer ar gyfer codi arian neu i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig.